



Meddwl yn strategol – gwaith ar droed

Croesewir eich sylwadau

Meddwl Strategol – gwaith ar droed

HSE Strategy
Strategy and Intelligence Division
8NW
Rose Court
2 Southwark Bridge
London
SE1 9HS

Argraffwyd a chyhoeddwyd gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
Mehedin 2003

Cynnwys:	Tudalen
Datblygu ein Strategaeth – proses esblygol	1
Egwyddorion cyffredin	1
Cael y budd gorau o'n hadnoddau	2
Materion o bwys sy'n wynebu iechyd a diogelwch ym Mhrydain	2
1) Ymateb i economi sy'n newid mewn byd sy'n newid	3
2) Materion iechyd	3
3) Diogelu'r cyhoedd	4
4) Rôl awdurdodau lleol	4
5) Rheoli'r busnes	5
Rhagdybiaethau sylfaenol	5
Cwestiynau	6
Ffyrdd o roi sylwadau	6
Ffurflen adborth	7

Datblygu ein strategaeth – proses esblygol

Mae strategaeth bresennol y Comisiwn Iechyd a Diogelwch ar gyfer 2001-2004 yn cynnwys y mentrau mawr o Adfywio Iechyd a Diogelwch a Sicrhau Iechyd gyda'n Gilydd. Mae hyn wedi ein datblygu ond mae angen i ni bwysu a mesur yn awr ac adeiladu ar hynny ar gyfer y dyfodol.

Mae'r papur 'gwaith ar droed' hwn yn deillio o drafodaeth agos rhwng y Comisiwn a'r Awdurdod Gweithredol. Bydd y Comisiwn yn ystyried canlyniadau'r ymgynghori ynghanol mis Awst.

Mae angen i strategaeth ar gyfer Iechyd a Diogelwch ym Mhrydain barhau i esblygu er mwyn bod gam ar y blaen o hyd i'r amgylchedd sy'n newid, neu o leiaf i ddatblygu ar y cyd ag ef. Yn y gorffennol, mae'r HSE wedi aros nes bod ei syniadau/cynlluniau wedi datblygu'n dda cyn ymgynghori â'r cyhoedd. Rydym am newid hyn. Yn y ddogfen hon rydym yn rhannu ein meddylfryd rhagarweiniol gyda chi ar gyfeiriad strategol Iechyd a Diogelwch galwedigaethol dros y 10 mlynedd nesaf ac yn gofyn am eich adborth cynnar.

Os hoffech wneud sylwadau, dylai eich ymateb ein cyrraedd erbyn 13eg Awst 2003. Bydd eich sylwadau yn cyfrannu at gynllun strategol drafft ar gyfer 2004-10 i'w gyhoeddi fel dogfen ymgynghorol yn gynnar yn yr hydref.

Egwyddorion cyffredin

Ein gweledigaeth yw cael cydnabyddiaeth o Iechyd a Diogelwch fel conglfaen cymdeithas waraidd, a chael y record orau yn y byd o ran Iechyd a Diogelwch yn y gweithle.

I lawer, mae Iechyd a Diogelwch yn hunanamlwg eisoes yn gonglfaen cymdeithas waraidd. Fodd bynnag, mae'r 40 miliwn o ddyddiau gwaith y flwyddyn a gollir o ganlyniad i anafiadau a salwch, gyda chanlyniadau ariannol a phersonol, yn dangos bod y gydnabyddiaeth hon ymhell o fod yn fyd-eang. Mae gan Brydain record dda o ran diogelwch, ond yn sicr nid ydym ar y blaen o ran Iechyd galwedigaethol. Gobeithiwn y bydd ein gweledigaeth ar gyfer Iechyd a Diogelwch yn ysbrydoli ein rhanddeiliaid traddodiadol yn ogystal â chynnwys a thanio brwdfrydedd rhanddeiliaid newydd i droi'r weledigaeth yn realiti.

Mae angen i'r HSE, gan weithio gyda'n partneriaid awdurdod lleol, ddiogelu Iechyd a Diogelwch pobl drwy sicrhau y rheolir risgiau yn gywir mewn gweithle sy'n newid. Mae hyn yn gyson â llawer o'n harferion presennol. Ond mae angen iddo hefyd adlewyrchu'r angen i nodi ac ymdrin â heriau newydd i Iechyd a Diogelwch yn y gweithle.

Byddwn yn parhau i:

- diogelu pobl drwy ddarparu gwybodaeth a chyngor; hyrwyddo a sicrhau system pennu nodau o reoleiddio; cynnal ac annog ymchwil a gorfodi'r gyfraith lle y bo'n briodol;

- dylanwadu ar sefydliadau i ymgorffori safonau uchel o iechyd a diogelwch ac i gydnabod y buddiannau cymdeithasol ac economaidd;
- gweithio gyda busnesau i atal methiannau trychinebus mewn diwydiannau lle mae peryglon mawr; a
- ceisio gwneud y defnydd gorau o adnoddau i gyflawni ein cenhadaeth a'n gweledigaeth.

Yn ogystal, mae angen i ni ymdrechu mwy i ateb heriau newydd a rhai sy'n datblygu. Ein nod yw:

- datblygu ffyrdd newydd o sefydlu a chynnal diwylliant iechyd a diogelwch effeithiol mewn economi sy'n newid, fel bod pob cyflogwr yn cymryd eu cyfrifoldebau o ddifrif, bod y gweithlu yn chwarae rhan lawn a bod risgiau yn cael eu rheoli yn gywir;
- gwneud mwy i fynd i'r afael â materion iechyd newydd a rhai sy'n datblygu yn y gwaith;
- cael mwy o gydnabyddiaeth a pharch at iechyd a diogelwch fel rhan hanfodol o sector busnes a sector cyhoeddus modern, cystadleuol ac fel cyfraniad at gyfiawnder cymdeithasol a chynhwysiant; ac
- enghreifftio arfer gorau'r sector cyhoeddus wrth reoli ein hadnoddau.

Cael y budd gorau o'n hadnoddau

Gwerthfawrogwn yr ymddiriedaeth sydd gan bobl yn ein henw. Ond gall yr ymddiriedaeth hon gael ei bygwth os ceisiwn fod yn bopeth i bawb. Mae'r byd gwaith wedi mynd yn fwy cymhleth a chyflym. Yn sgîl hyn mae cylch gwaith HSE wedi ehangu, e.e. materion rheilffordd, alltraeth a diogelu'r cyhoedd. Mae ymwybyddiaeth a disgwyliad y cyhoedd ynghylch risg, rheoli risg a darparu gwasanaeth wedi cynyddu'n sylweddol.

Er mwyn bod mor effeithiol â phosibl, ni allwn ganiatáu i'n hadnoddau gael eu dosbarthu yn rhy denau nac ychwaith i gael ein denu i feysydd newydd, yn arbennig mewn perthynas â diogelwch y cyhoedd, lle mae'r cysylltiadau â'n cenhadaeth yn wan.

Cydnabyddwn fod angen i ni wneud mwy o lawer i flaenoriaethu ein hymyriadau a'u targedu fel y cânt yr effaith fwyaf, gan hyd yn oed roi'r gorau i rai pethau yn gyfan gwbl. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i ni wneud rhai dewisiadau anodd a bod yn ddisgybledig gan gadw atynt.

Er mwyn bod yn llwyddiannus, bydd angen i ni dynnu'n ôl o rai meysydd lle y buom yn draddodiadol yn weithgar, lle mae'r cyfle i wella iechyd a diogelwch ymhellach yn gyfyngedig, neu lle nad oes angen gweithgareddau HSE ac awdurdodau lleol bellach i hybu gwelliant parhaus. Rydym am gyfeirio adnoddau at y meysydd llai datblygedig lle y gallwn gael yr effaith fwyaf. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ni gytuno ar gydbwysedd priodol â rhanddeiliaid rhwng ymyriad uniongyrchol a hunanreolaeth mewn rhai diwydiannau.

Materion o bwys sy'n wynebu iechyd a diogelwch ym Mhrydain

Rydym wedi gwneud rhywfaint o waith cychwynnol i nodi'r materion o bwys sy'n wynebu iechyd a diogelwch ym Mhrydain yn ein barn ni. Awgrymwn fod y rhain yn cynrychioli'r meysydd pwysicaf o ran cyfle a bygythiad i iechyd a diogelwch galwedigaethol dros y 10 mlynedd nesaf.

1 Ymateb i economi sy'n newid mewn byd sy'n newid

Mae'r economi wedi newid ac yn parhau i newid. Caiff llawer o'r newid hwn ei lywio gan dechnolegau gwybodaeth a chyfathrebu newydd, gweithlu mwy symudol, a'r duedd o ganlyniad tuag at economi fyd-eang. Mae gan y rhain, a dylanwadau eraill, ystod eang iawn ei chwmpas o effeithiau sy'n berthnasol i iechyd a diogelwch galwedigaethol, gan gynnwys:

- Globaleiddio a chystadleuaeth gynyddol: mae angen i ni sicrhau y gwelir y gwaith o reoli iechyd a diogelwch yn dda fel symbylydd ar gyfer bod yn gystadleuol ac nid fel rhywbeth sy'n ei leihau
- Bydd newid technolegol yn parhau i gyflwyno risgiau newydd a mesurau rheoli amgen ar gyfer risgiau presennol.
- Mae patrymau gwaith yn newid gyda thuedd tuag at weithio 24/7, gweithio o bell a gweithio gartref, tra bod economi Prydain yn parhau i newid gan symud i ffwrdd o weithgynhyrchu a thuag at ddiwydiannau gwasanaethu.
- Mae effaith poblogaeth sy'n heneiddio ar y rheini sydd mewn gwaith yn debygol o gynyddu dros amser.
- Mae pobl yn fwy ymwybodol o hawliau a chyfrifoldebau wedi eu cyplysu â mwy o hawl i gael iawndal cyfreithiol.
- Mae gweithgareddau hamdden peryglus yn cael eu masnacheiddio yn fwy, gan herio rôl y rheolydd wrth ddiogelu iechyd a diogelwch.

2 Materion iechyd

O'r 40 miliwn o ddyddiau a gollwyd yn 2001/2 o ganlyniad i salwch ac anafiadau galwedigaethol, roedd yn bosibl priodoli 33 miliwn ohonynt i salwch. Ni fu cymaint o welliant mewn iechyd galwedigaethol ag y bu ym maes diogelwch.

Mae'r ffocws ar iechyd galwedigaethol wedi newid yn y blynyddoedd diwethaf o'r meysydd "traddodiadol" fel amlygiad i gemegion a sŵn i faterion "newydd" megis straen ac anhwylderau cyhyrsgerbydol. Mae mwy o bwyslais hefyd ar adsefydlu. Dylem fod yn barod am y newid pellach yng nghydbwysedd materion iechyd galwedigaethol dros y blynyddoedd i ddod. Mae materion o'r fath yn creu heriau newydd mewn nifer o ffyrdd:

- Mae mwy o bwyslais trawslywodraethol ar greu gweithlu iach, cynhyrchiol a mwy cynhwysol. Gall salwch ddeillio o gyfuniad o achosion galwedigaethol a rhai nad ydynt yn ymwneud â gwaith. Mae'r gorgyffwrdd hwn yn creu cyfle i gael dulliau integredig newydd a mwy

effeithiol ac ar yr un pryd yn creu cyfle i weld bygythiad o ddulliau digyswllt a negeseuon croes.

- Mae angen sgiliau ac arbenigedd gwahanol i nodi, asesu, rheoli a chynghori ar rai materion iechyd. Bydd angen i reolwyr, arolygwyr iechyd a diogelwch, cynrychiolwyr diogelwch ac eraill naill ai gaffael y sgiliau a'r arbenigedd angenrheidiol neu eu dirprwyo i arbenigwyr. Gall hyn herio dulliau iechyd a diogelwch cymysg.

3 Diogelu'r cyhoedd

Yn ystod y trafodaethau ar Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974, nododd y Senedd nad oedd yn fwiad i'r Comisiwn Iechyd a Diogelwch/yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch fod yn llwyr gyfrifol am ddiogelu'r cyhoedd. Noda adran 3 o'r Ddeddf fod dyletswydd ar gyflogwyr i sicrhau diogelwch pobl heblaw eu cyflogeion, y gall eu gwaith effeithio arnynt. Dros amser, mae hyn wedi golygu bod HSC/E ac awdurdodau lleol wedi ymgymryd â rôl gwarcheidwaid materion diogelu'r cyhoedd yn ogystal â diogelu gweithwyr. Dros y blynyddoedd diwethaf, daeth materion diogelwch yn ffactor pwysig iawn hefyd.

Bu galw cynyddol am ehangu rôl HSC/E i ddiogelu'r cyhoedd. Aeth hyn â ni i feysydd, y rheoleiddir rhai ohonynt eisoes gan awdurdodau eraill ac at rai sydd ymhell y tu allan i graidd arbenigedd presennol HSE. Mae'r ystod o faterion diogelu'r cyhoedd lle y buom o dan bwysau yn ddiweddar i ymyrryd yn cynnwys:

- materion yn ymwneud â barn glinigol;
- amrywiaeth o faterion diogelu'r defnyddiwr, er enghraifft, lle mae trwsio offer yn y cartref yn arwain yn y pen draw at niweidio pobl; a
- materion yn ymwneud â "risg wirfoddol" lle mae aelodau'r cyhoedd yn gwneud pethau i deimlo gwefr.

Rydym yn wynebu tensiynau cymdeithasol nad ydynt wedi'u datrys. Ar y naill law mae llawer o unigolion yn ceisio mwy o gyfleoedd i fynegi eu hunain yn bersonol a all olygu cymryd risg yn aml. Ar y llaw arall, pan aiff rhywbeth o'i le, bydd disgwyl cynyddol i'r llywodraeth ymyrryd i reoli, gwella a cheisio cosbi pobl a sefydliadau sy'n niweidio aelodau o'r cyhoedd, beth bynnag fo'r amgylchiadau. Er bod atebion sifil cyffredinol ar gael, mae'r rheini yr effeithir arnynt yn aml yn troi at HSE ac awdurdodau lleol i geisio sicrhau cyfiawnder.

Mae angen i ni ddod o hyd i ffyrdd o reoli'r galwadau hyn yn effeithiol yn ogystal â'r disgwyliadau sy'n eu hybu.

4 Rôl awdurdodau lleol

Rhennir gwaith gorfodi iechyd a diogelwch ar hyn o bryd rhwng HSE a thros 400 o awdurdodau lleol. Yn gyffredinol, mae awdurdodau lleol yn gorfodi deddfwriaeth iechyd a diogelwch ar hyn o bryd mewn siopau, swyddfeydd, cyfanwerthwyr, warysau, gorsafoedd petrol, gwasanaethau arlwy, gwestai, gwasanaethau defnyddwyr a hamdden, ac ati.

Mae'r economi wedi newid ac yn parhau i wneud hynny. Mae nifer yr eiddo gweithgynhyrchu wedi lleihau tra bod maint y sector gwasanaethu, wedi ei orfodi'n bennaf gan awdurdodau lleol, yn parhau i gynyddu. Mae'r sectorau hyn a orfodir gan yr awdurdodau lleol yn cynnwys y busnesau lle mae'r heriau "mwy newydd", yn arbennig materion sy'n gysylltiedig ag iechyd, yn amlwg.

Er bod awdurdodau lleol a HSE yn bartneriaid gorfodi, llywiwyd y berthynas yn fwy gan bwyslais ar raniad ymarferol o gyfrifoldebau nag ar y defnydd mwyaf effeithiol ac effeithlon o adnoddau cyfunol. Mae gan awdurdodau lleol lawer o gyfrifoldebau i'w cydbwyso ac ers degawd neu fwy, mae'r adnoddau a neilltuwyd i weithgareddau gorfodi iechyd a diogelwch wedi lleihau o flwyddyn i flwyddyn. O fewn y darlun hwn, mae llawer o amrywiaeth; mae rhai awdurdodau wedi cynnal rhaglenni rhagorol o ymyriad iechyd a diogelwch, gan gyfuno hyn yn aml â meysydd eraill o'u gwaith; bu eraill yn llawer llai effeithiol.

Os bydd gostyngiad mewn adnoddau yn parhau ofnwn y collir cyfleoedd i effeithio ar arferion iechyd a diogelwch. Mae'n debygol hefyd y bydd yr anghysondeb wrth dargedu a blaenoriaethu, rhwng awdurdodau a rhwng gwaith HSE ac awdurdodau lleol yn cynyddu ac ni wnawn y defnydd mwyaf effeithiol o'r adnoddau sydd ar gael i ni.

5 Rheoli'r busnes

Bu HSE yn newid cryn dipyn er mwyn symud i ffwrdd o strwythur gweithrediadol tuag at sefydliad sy'n gweithio gyda'i gilydd ar draws ffiniau i gyrraedd ei dargedau: lleihau nifer y bobl a gaiff eu lladd, eu hanafu neu sy'n mynd yn sâl o ganlyniad i'w gwaith. Mae angen i hyn barhau a mynd ymhellach.

Credwn fod angen i ni:

- bod yn fwy hyblyg – gallu nodi ac ymateb i newid allanol;
- ceisio cyfleoedd i ddatblygu a defnyddio ymyriadau newydd i ychwanegu at ein hymagweddau traddodiadol, fel arolygu a chyhoeddi taflenni canllaw;
- bod yn fwy effeithiol wrth lunio partneriaethau â rhanddeiliaid a fydd â mwy o allu i ddylanwadu ar agendâu penodol na ni; ac
- alinio ein hadnoddau yn uniongyrchol â'n rhaglenni i sicrhau gwelliannau o ran iechyd a diogelwch.

Rhagdybiaethau sylfaenol

Bydd y strategaeth, y bydd eich sylwadau yn cyfrannu ati, yn ddogfen fer a fydd yn arwain at flaenoriaethu ein gwaith yn wirioneddol. Bydd hefyd yn seiliedig ar rai rhagdybiaethau sef:

- bod y broses o gynnwys cynrychiolwyr gweithwyr yn parhau i fod wrth wraidd ein gwaith;

- diffinio rôl yswiriant yn well;
- nad ydym yn rhagweld unrhyw raglenni deddfwriaethol newydd o bwys (ac eithrio cynigion y Swyddfa Gartref ar ladd corfforaethol);
- bydd polisi gorfodi HSC yn parhau yn ddigyfnewid yn y bôn;
- erys y gwaith o hybu asesiadau o risg yn rhan sylfaenol o'n gwaith.

Mae Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith yn parhau i fod yn elfen hanfodol o'r holl waith a wnawn.

Cwestiynau

- ***A yw'r materion cywir gennym?***
- ***A oes unrhyw faterion eraill sydd yr un mor bwysig, neu'n fwy pwysig ac os felly, pam?***
- ***Beth y dylem ei wneud am bob un o'r materion?***
- ***Mae mwy o weithgaredd mewn rhai meysydd yn galw am leihau gweithgaredd mewn eraill; ble y dylai HSC/E ac awdurdodau lleol fod yn lleihau y rhan a chwaraeant?***
- ***Pa ddulliau y gellir eu rhoi ar waith i gynnal safonau mewn meysydd lle mae HSC/E ac awdurdodau lleol wedi lleihau y rhan a chwaraeant?***

3 ffordd i wneud sylwadau:

1. Mae ffurflen adborth ynghlwm wrth gefn y llyfryn hwn os dymunwch anfon ymateb ysgrifenedig.
2. Fel arall gallwch anfon ymatebion ar y ffurflen adborth electronig a ddarperir ar ein gwefan ymgynghori
<http://www.hse.gov.uk/consult/live.htm>
3. neu gallwch anfon eich safbwyntiau i'r cyfeiriad e-bost isod.

Gan ddefnyddio eich sylwadau, bydd HSE yn datblygu cynllun strategol drafft ar gyfer 2004-10. Bwriadwn gyhoeddi'r cynllun drafft fel dogfen ymgynghorol yn gynnar yn yr hydref. Cyfrifoldeb y Comisiwn Iechyd a Diogelwch fydd penderfynu'n derfynol ar gynnwys y cynllun strategol.

Dylid cyflwyno sylwadau erbyn 13eg Awst i:

HSE Strategy
Strategy and Intelligence Division
8NW
Rose Court
2 Southwark Bridge
London
SE1 9HS

Neu e-bost: sid.consult@hse.gsi.gov.uk